**7.1** **Gweddill y Ceisiadau** **Remainder Applications**

Rhif y Cais: **22C206** Application Number


Ymgeisydd Applicant

**Mr Hudson Jones**
**c/o Mr Phil Holdcroft**
**Savills**
**Planning Department**
**Wessex House**
**Priors Walk**
**East Borough**
**Wimborne**
**Dorset**
**BH21 1PB**

Codi mast anemometer dros dro 40.5m o uchder ar dir i'r De o

Erection of a temporary 40.5m high anemometer mast on land to the South of

Rhos Isaf, Llanddona



**Pwyllgor Cynllunio: 04/04/2012**

**Adroddiad gan Bennaeth y Gwasanaeth Cynllunio(JBR)**

**Argymhelliad:**

Caniatau.

**1. Rhesymau'r Aelodau Dros Wrthod**

Mae ei effaith weledol a'i effaith ar y dirwedd yn sylweddol andwyol.

**2. Ymateb y Swyddogion i'r Rhesymau Dros Wrthod**

Cais yw hwn i godi mast anemomedr 40.5 metr o uchder am gyfnod dros dro o hyd at 18 mis.

Mae diamedr y mast anemomedr dros dro arfaethedig yn mesur 15cm sydd oddeutu diametr colofn goleuni stryd cyffredin, a bydd y mast yn cael ei ddal yn ei le gyda gwifrau 5mm sydd tua'r un diametr â phensil.

Oherwydd mesuriadau cul y mast arfaethedig a'i natur tros dro a'i bod yn bosibl ei newid, nid ydym yn credu y bydd y cynnig yn cael effaith sylweddol ar y dirwedd nac o safbwynt gweledol.

**3. Argymhelliad**

**Caniatau.**

**(01) Rhaid cael gwared o'r adeilad a ganiateir yma fel na fydd olion ohono ar y tir erbyn 31/10/2013 ag adfer y tir i'r hyn ydoedd cyn 31/12/2013.**

Rheswm: Am gyfnod dros dro'n unig y rhoes yr awdurdod cynllunio lleol ganiatâd gan eu bod yn dymuno ailystyried y sefyllfa ar 31/10/2013 yn wyneb yr amgylchiadau fydd yn bod yr adeg honno.

**7.2** **Gweddill y Ceisiadau** **Remainder Applications**


Rhif y Cais: **35C105E** Application Number

Ymgeisydd Applicant

**Mr & Mrs D.A & M Davies**
**c/o Penseiri Russell-Hughes Architects**
**56 Bridge Street,**
**Llangefni,**
**Ynys Môn.**
**LL77 7HH.**

Addasu ac ehangu yn Alterations and extensions at

Cae Chippy, Llangoed



**Pwyllgor Cynllunio: 04/04/2012**

**Adroddiad gan Bennaeth y Gwasanaeth Cynllunio(GJ)**

**Argymhelliad:**

Gwrthod

**Rheswm dros Adrodd i'r Pwyllgor:**

Mae’r Aelodau wedi penderfynu cymeradwyo’r cais yn groes i argymhelliad y swyddog. Yn unol â chyfansoddiad y Cyngor, mae’r cais yn cael ei gyflwyno i’r aelodau fel bod modd iddynt ailystyried eu penderfyniad.

**1. Rhesymau’r Aelodau dros Ganiatau**

Byddai’r estyniad arfaethedig yn cydymffurfio gyda gofynion polisi 55 y Cynllun Lleol a pholisi HP8 y CDU a stopiwyd.

**2. Ymateb y Swyddog i Resymau’r Aelodau tros Ganiatau**

O gofio nifer yr estyniadau a gymeradwywyd eisoes ar y cynllun addasu gwreiddiol, ni all yr adain gefnogi’r cais dan sylw oherwydd y bydd yn golygu mwy ‘na man-estyniadau o ystyried y cais yn ei gyfanrwydd. Mae hynny’n tynnu’n groes i Bolisi 55 Cynllun Lleol Ynys Môn, polisi HP8 y Cynllun Datblygu Unedol a stopiwyd a’r Cyfarwyddyd Cynllunio Atodol a fabwysiadwyd yn ddiweddar - Addasiadau (a fabwysiadwyd ar 8 Rhagfyr 2011).

**Gwrthod**

(01) Mae’r Awdurdod Cynllunio Lleol yn credu bod yr estyniad arfaethedig yn groes i ddarpariaethau Polisi 55 Cynllun Lleol Ynys Mon a Pholisi HP8 y Cynllun Datblygu Unedol a ddaeth i ben ac y byddai’n tanseilio integriti’r polisiau hyn ynghyd a’r cyfarwyddyd geir yng Nghyfarwyddyd Cynllunio Atodol y Cyngor – Cyfarwyddyd Dylunio ar gyfer yr Amgylchedd Trefol a Gwledig ac Addasiadau Gwledig.